Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Glan Afan

**Heol yr Orsaf**
**Port Talbot**
**SA13 1LZ**

**Dyddiad yr arolygiad: 15 Chwefror 2011**

**gan**

**Mr Gwyn Thomas**

**O Dan Gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Glan Afan yn ysgol gyfun i fechgyn a merched rhwng 11-16 gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol Port Talbot ac yn gwasanaethu cymunedau Baglan, Gorllewin Sandfields a Phort Talbot. Mae cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig yn ogystal ag ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob gallu.

Mae 470 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Adeg yr arolygiad blaenorol ym Mawrth 2005 roedd 706 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ers hynny, mae poblogaeth yr ysgol wedi gostwng o ryw draean.

Mae cyfwerth amser llawn o 30 o staff addysgu ac yn ychwanegol, cyfwerth amser llawn o 9.5 o staff gweinyddol.

Yn 2009-2010, roedd gan 16.86% o ddisgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%. Yn 2010, roedd 7.6% o ddisgyblion 15 oed ar y gofrestr anghenion addysg arbennig.

Ar hyn o bryd, mae gan1.9% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 26.6% pellach angen cymorth ychwanegol. Mae canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr anghenion addysg arbennig yn 28.5% sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.9% yn 2010.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Dim ond 2% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn barhaol ym Medi 2005. Ers yr arolygiad diwethaf, bu newidiadau arwyddocaol yn staff yr ysgol ar lefel rheolaeth uwch a chanol. Ymgymerodd y dirprwy bennaeth (oedd wedi bod yn bennaeth cynorthwyol ers 2005) a phennaeth cynorthwyol â'u dyletswyddau ym Medi 2010. Mae hefyd amryw o aelodau staff profiadol sydd yn newydd i reolaeth ganol.

Amcanion yr ysgol yw creu amgylchedd ddysgu disgybledig lle mae disgyblion yn gallu gwneud y mwyaf o'u potensial a datblygu medrau ar gyfer dysgu gydol oes a dod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Glan Afan yw £4,378 sydd yn cymharu gydag uchafswm o £5,613 a lleiafswm o £3,747 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y pedwerydd uchaf allan o'r 11 o ysgolion uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Yn gyffredinol, mae Ysgol Gyfun Glan Afan yn ysgol dda. Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 yn dda neu well. Fodd bynnag, roedd arolygwyr o'r farn fod y safonau'n gyffredinol yn ddigonol oherwydd bod angen gwelliant arwyddocaol mewn meysydd pwysig, yn enwedig ym mron yr holl bynciau nad ydynt yn rhai craidd yng nghyfnod allweddol 3.

**Rhagolygon gwella**

Arfarnir fod rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd:

- gweledigaeth a disgwyliadau uchel y pennaeth;
- cydlyniad ac ansawdd yr uwch dîm rheoli;
- gwelliant yn ansawdd y mwyafrif o'r rheolwyr canol;
- gwelliant parhaus yn y safonau yng nghyfnod allweddol 4;
- ansawdd rhagorol y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a rhoddir i ddisgyblion; a'r
- cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf wrth ddatblygu gweithdrefnau hunan arfarnu cadarn.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Glan Afan:

A1 codi a pharhau i godi safonau'n gyson yn y pynciau craidd a bron yr holl o'r pynciau nad ydynt yn rhai craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3.

A2 gwella'r safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol;

A3 sicrhau caiff yr holl ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer ennill cymwysterau yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4;

A4 achredu'r holl fedrau allweddol ar y lefel priodol er mwyn cefnogi cynnydd y disgyblion;

A5 parhau i ddatblygu'r prosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant gydag ychydig iawn o reolwyr canol;

A6 sicrhau eglurdeb a chysondeb wrth asesu gwaith disgyblion, a

A7 parhau i weithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau yn gysylltiedig â'r adeiladau a'r ystafelloedd.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu sydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Caiff y cynnydd wrth ymdrin â'r argymhellion ei fonitro gan yr Awdurdod Addysg Lleol.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2010, roedd y dangosydd pynciau craidd (y perfformiad a ddisgwylir mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) yn y 25% uchaf o'i gymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd Saesneg a mathemateg yn yr 50% uchaf a gwyddoniaeth yn yr 50% isaf. Roedd hyn yn welliant ar y ddwy flynedd flaenorol pan roedd bron yr holl ddangosyddion un ai yn yr 25% neu'r 50% isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim.

Yn 2010, roedd canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd yn rhoi'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu (grwpiau o ysgolion gyda chyfran debyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, ag anghenion addysgol arbennig ac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol). Roedd gwyddoniaeth ychydig yn is.

Yn ystod 2008-2010, roedd cyflawniad disgyblion yn uwch na lefel 5 a lefel 6 yn y pynciau craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol yn 2009. Roedd gwyddoniaeth yn gyson is am y tair blynedd. Mae disgyblion wedi tangyflawni ac roedd eu cynnydd yn is na'r disgwyl yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Ar nifer o achosion dros gyfnod o dair blynedd, roedd cyflawniad disgyblion ar lefel 5 ac uwch yn y pynciau nad oeddent yn rhai craidd, ac eithrio celf, braidd yn ddigonol. Roedd canlyniadau mewn wyth o'r pynciau nad oeddent yn rhai craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu a rhai cenedlaethol yn 2008 a 2009 ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% neu'r 50% isaf o'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd tri phwnc wedi bod yn y 25% isaf am dair blynedd yn olynol.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2010, roedd perfformiad disgyblion mewn llawer o'r dangosyddion yn dda iawn ac yn uwch na pherfformiad disgyblion yn 2009. Roedd llawer o'r dangosyddion allweddol yn y 25% o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim yn 2010. O gymharu gyda'i theulu o ysgolion, gosodwyd yr ysgol bron bob tro yn uwch na chyfartaleddau'r teulu. Dros gyfnod o dair blynedd, roedd perfformiad disgyblion yn gyffredinol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu er bod canlyniadau yn amrywio ym mron yr holl ddangosyddion.

Yn ystod 2008-2010, roedd perfformiad disgyblion mewn Saesneg lefel 2 (graddau A*-C TGAU) wedi disgyn. Roedd y trothwy lefel 2 (casgliad o ddysgu sydd yn gyfwerth â phump TGAU ar raddau A*-C) gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg wedi codi fymryn yn ystod y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, roedd disgyblion wedi gwneud cynnydd da neu well yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chynnydd da o gyfnod allweddol 2.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn ystod 2008-2010, roedd bron pob un o'r disgyblion wedi gadael yr ysgol gyda chymhwyster cydnabyddedig. Roedd hyn yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol am y cyfnod hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn parhau gyda'u haddysg llawn amser mewn ysgol, addysg bellach neu mewn hyfforddiant yn seiliedig ar waith. O'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 11 a adawodd yr ysgol yn haf 2010, nid yw 6% mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ffigurau da.

Yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol, yn 2008-1020, roedd y bechgyn yn perfformio'n well na'r merched ar ychydig iawn o achlysuron yng nghyfnod allweddol 3 ac ar ychydig o achlysuron yng nghyfnod allweddol 4. Roedd y bwlch rhwng y bechgyn a'r merched wedi lleihau mewn ychydig o achosion. Mae bechgyn mwy galluog yn perfformio'n well na merched mwy galluog yng nghyfnod allweddol 4.

Mae grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol a'r ychydig iawn o blant a ofelir amdanynt, yn gwneud cynnydd cadarn mewn perthynas â'u gallu.

Yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn gwrando'n dda, yn siarad yn eglur ac mae llawer yn mynegi eu safbwyntiau'n hyderus.

Ym Mlynyddoedd 7 ac 8 ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn arddangos medrau darllen ac ysgrifennu da. Fodd bynnag, mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau darllen cyfyng sydd yn effeithio ar eu cynnydd. Mae safonau medrau rhifedd a chyfathrebu'r disgyblion yn gadarn. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda ac yn amlwg iawn mewn llawer o bynciau. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff y medrau hyn eu datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm ac maent wedi effeithio'n gadarnhaol iawn ar ddeilliannau disgyblion.

Mewn Cymraeg ail iaith, mae cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 3 wedi gwella yn 2010. Y canran o ddisgyblion oedd yn ennill lefel 5 oedd 72%. Roedd hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol am y tro cyntaf mewn pedair blynedd. Yng nghyfnod allweddol 4, ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dilyn y cwrs TGAU llawn. Yn y cwrs byr, enillodd 68% o'r rhai a gofrestrwyd lefel 2 neu well, ond ni wnaeth bron i 27% o'r grŵp blwyddyn sefyll yr arholiad. Mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn ddigonol ac mae eu medrau dwyieithog yn gyfyng. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o Gymraeg achlysurol.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn derbyn cymorth personol da iawn. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol. Delir yn effeithiol gyda'r ychydig iawn o achosion o fwlian. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol, yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn. Dros y tair blynedd diwethaf, mae gwaharddiadau tymor penodol wedi gostwng yn sylweddol a gwaharddiadau parhaol bron wedi eu dileu. Mae'r rhain yn nodweddion da iawn.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n heini ac yn iach ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ymarfer a diet. Mae canran y disgyblion sydd yn cyfranogi mewn gweithgareddau ffitrwydd, chwaraeon ac allgyrsiol perthynol yn dda.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi bod yn dda ac yn uwch na'r canolrif mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf. Yn 2010, roedd presenoldeb disgyblion fymryn yn is na'r disgwyl ac yn rhoi'r ysgol ychydig yn is na'r canolrif o'i chymharu gydag ysgolion tebyg.

Yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, roedd disgyblion yn cydweithio'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Maent yn canolbwyntio'n dda, yn dangos parch tuag at eraill ac mae ganddynt ymagweddau da tuag at ddysgu.

Nodwedd ragorol o fywyd yr ysgol yw'r amrediad eang o gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion gyfranogi yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, y grŵp Eco ac eraill yn gwneud cyfraniadau pwrpasol iawn tuag at y prosesau gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae disgyblion wedi cyfrannu'n gadarnhaol tuag at amryw o agweddau o fywyd ysgol gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Er bod arolygwyr wedi barnu'r deilliannau i fod yn ddigonol, eu barn oedd bod y ddarpariaeth yn dda oherwydd y nodweddion a nodir isod.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm effeithiol sydd yn diwallu anghenion disgyblion. Mae'n darparu amser digonol i gyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r cydweithio gydag ysgolion cynradd partner er mwyn sicrhau cysondeb y ddarpariaeth gwricwlaidd wrth drosglwyddo yn dda. Mae'r trefniadau grwpio o fewn yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gyflawni eu potensial.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn rhagori ymhell ar ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Mae wedi gwneud cynnydd da iawn wrth weithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r ysgol yn cynnig amrediad da o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys ystod o elfennau ffurfiol ac anffurfiol. Mae cydweithrediad yr ysgol gyda Choleg Castell-nedd Port Talbot a darparwyr 11-16 eraill yn dda. Mae cydweithrediad clos gyda darparwyr eraill yn sicrhau dilyniant a pharhad llwyddiannus mewn amrediad o bynciau. Mae amserlennu arloesol yn sicrhau fod disgyblion yn gallu dilyn eu llwybr dewisedig.

Cynigir cwricwlwm addas i ddisgyblion bregus, ac mae dysgwyr mwy galluog a dawnus yn derbyn cyfleoedd i ennill cymwysterau ychwanegol ac i ddatblygu eu doniau penodol. Trwy'r gwaith paratoadol cadarn a wneir ym Mlwyddyn 9, mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth sicrhau fod bron yr holl ddisgyblion yn dilyn y dewis o astudiaeth maent yn ffafrio yng nghyfnod allweddol 4.

Mae amrywiaeth y gweithgareddau allgyrsiol yn helaeth. Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau gan gynnwys drama, chwaraeon a chyfleoedd cyfoethogi cerddorol ac artistig.

Trwy amrywiol strategaethau, yn benodol y system mentora a'r cynllun darllen pâr, mae cefnogaeth effeithiol iawn yn bodoli i ddisgyblion oresgyn rhwystrau i ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth a'r cydlynu o'r medrau allweddol yng nghyfnodau 3 a 4 yn dda. Caiff llythrennedd ei dargedu'n dda, gan addasu cynlluniau gwaith pan fod disgyblion yn gweithio islaw'r lefelau disgwyliedig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda, gyda gwersi wedi eu hamserlennu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Flynyddoedd 7 i 11. Mae'r ddarpariaeth mewn rhifedd yn datblygu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn ddigonol ar draws yr ysgol. Caiff llawer o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU byr mewn Cymraeg ail iaith, gydag ychydig yn dilyn y TGAU llawn. Mae'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr gyda nifer o adrannau'n cyfrannu. Dim ond ychydig o athrawon sydd yn defnyddio Cymraeg achlysurol.

Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer materion datblygiad cynaliadwy yn dda iawn. Mae'r pwyllgor Eco yn gwneud cyfraniad nodedig. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy amrediad o weithgareddau dysgu.

**Addysgu: Da**

O fewn y gwersi a arsylwyd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno gwersi da. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn effeithiol. Mewn llawer o wersi defnyddir amrediad da o strategaethau addysgu. Caiff nodau ac amcanion gwersi eu hamlinellu'n eglur, mae cyflymder a her dda i'r gwersi ac maent yn ddiddorol. Yn yr ychydig o wersi rhagorol a welwyd, mae athrawon yn denu'r disgyblion yn llwyr gyda thasgau heriol ac yn sicrhau fod yr addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu. Yn yr ychydig o wersi digonol a arsylwyd, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd y diffyg her mewn gwersi a gor-gyfarwyddo gan athrawon.

Mae'r perthnasau gweithio rhwng y disgyblion a'r athrawon yn dda.

Mae'r gwaith a ddarperir ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol i'w hanghenion. Mewn rhai pynciau, caiff y disgyblion mwy galluog a dawnus eu cofrestru'n gynnar ar gyfer ennill cymwysterau.

Mae ansawdd y marcio yn amrywio rhwng adrannau. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff llyfrau eu marcio'n rheolaidd gan roi sylwadau diagnostig a llawn gwybodaeth i'r disgyblion ar sut i wella. Mewn lleiafrif o'r llyfrau a samplwyd, mae'r marcio yn arwynebol.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd gref o fewn rhai adrannau, gyda disgyblion yn gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain yn llwyddiannus ac yn asesu gwaith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, ni chaiff ei gymhwyso'n gyson.

Mae'r uwch dïm rheoli yn dadansoddi cyfoeth o ddata'n effeithiol ac yn cefnogi athrawon yn dda wrth iddynt edrych ar gyrhaeddiad eu disgyblion.

Caiff disgyblion eu hysbysu'n dda am eu cynnydd. Mae system tracio cyson sydd yn sicrhau caiff tangyflawniad ei ddynodi'n gynnar a strategaethau i unioni'r sefyllfa eu gweithredu. Mae disgyblion yn deall yn eglur y lefelau maent yn gweithio arnynt. Mae'r system mentora yng nghyfnod allweddol 4 yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau disgyblion tuag at ddysgu a'r safonau a gyflawnant.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau i rieni'n dda. Mae'r adroddiadau interim a diwedd blwyddyn yn darparu gwybodaeth eglur ar gynnydd ac ymdrech y disgyblion a'r radd target maent yn anelu ato. Mae diffyg llymder i'r targedau a osodir gan rhai athrawon yn yr adroddiadau diwedd blwyddyn. Ceir cyfle da i rieni a disgyblion rhoi sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Derbynia'r holl ddisgyblion arweiniad a chefnogaeth ardderchog. Mae hyn yn tanategu egwyddorion yr ysgol a'i hethos o gynhwysiad.

Rhoddir gwybodaeth eglur a chytbwys i ddisgyblion a rhieni wrth wneud dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac ôl-16.

Mae amrediad eang o asiantaethau allanol yn darparu cefnogaeth o safon uchel. Mae agweddau o'r gwaith hwn yn rhagorol. Mae disgyblion yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn effeithiol.

Mae cefnogaeth hyfforddwr dysgu yn darparu arweiniad gwerthfawr ar gynnydd academaidd a chefnogaeth bersonol i rai disgyblion bregus iawn.

Caiff lles a datblygiad iachus y disgyblion eu hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymwybodol o fuddiannau dull iachus o fyw. Mae'r ffreutur yn darparu amrediad o brydau iachus ac mae disgyblion yn cyfranogi mewn amrediad eang o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chymunedol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr. Mae asiantaethau allanol yn cyfrannu'n eithriadol tuag at ddatblygu cyfrifoldeb personol disgyblion a'u rhan weithredol yn y gymuned. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

Mae datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda.

Mae gweithdrefnau eglur a thrylwyr ar gyfer delio gyda bwlian. Caiff y prosiect ardderchog "Bwlis-Allan" a'r ystafell feithrin eu gwerthfawrogi'n fawr gan y disgyblion a'u rhieni.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae'r gweithdrefnau dynodi ar gyfer y disgyblion hyn yn gynhwysfawr. Mae strategaethau sydd wedi eu cydlynu’n dda wedi eu gwreiddio'n gadarn er mwyn diwallu anghenion unigol.

Mae systemau tra effeithiol yn monitro cynnydd disgyblion ac yn sicrhau mynediad at gwricwlwm eang, cytbwys a phriodol.

Mae cynlluniau addysgol unigol trylwyr yn sefydlu targedau addas ar gyfer gwelliant. Cânt eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan staff addysgu a chynorthwyol yn ogystal â'r disgyblion.

Caiff rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu hysbysu a'u cynnwys yn llawn

Mae'r ysgol yn creu amgylchedd lle gall yr holl ddisgyblion gyflawni deilliannau cadarnhaol iawn. Mae'r ethos cefnogol iawn yn darparu amgylchedd sefydlog a threfnus.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol iawn lle mae staff a disgyblion yn arddangos parch a gofal y naill at y llall. Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn mynediad cyfartal i holl feysydd o ddarpariaeth yr ysgol. Mae disgyblion yn gefnogol iawn o'i

gilydd ac mae ganddynt hyder yn y staff. Ceir pwyslais amlwg ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Caiff llawer o adnoddau eu cydweddu i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cyfoes ar gael yn hawdd i bawb.

Mae campws yr ysgol yn gyfyng ac yn ordyrrog mewn llefydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff yr ystafelloedd ac ardaloedd dysgu eu defnyddio'n dda. Mae arddangosfeydd yn y coridorau a'r dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu ac yn dathlu cyflawniad yn effeithiol. Mae rhai ardaloedd yn hen ac angen eu hailwampio.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Er bod arolygwyr wedi barnu deilliannau i fod yn ddigonol roeddent o'r farn fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda oherwydd y nodweddion a nodir isod.

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethu ac aelodau eraill o'r uwch dîm rheoli yn hyrwyddo datganiad o genhadaeth eglur er mwyn uchafu potensial disgyblion a datblygu medrau ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae disgwyliadau uchel ac arweinyddiaeth y pennaeth gyda chefnogaeth ei huwch dîm rheoli bellach wedi sicrhau fod gan lawer o'r timoedd pwnc a bugeiliol ymdeimlad da o bwrpas. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn atebolrwydd ar draws yr ysgol. Datblygwyd strwythur effeithiol ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn wedi sicrhau'n llwyddiannus fod rheolwyr yn rhan weithredol wrth ddatblygu cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol strwythur adolygu, monitro a chyfarfod effeithiol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â llawer o faterion craidd a chodi perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Ar hyn o bryd, mae llawer o arweinwyr yn defnyddio data'n effeithiol i fonitro perfformiad, gosod targedau a dynodi tangyflawniad. Nid yw ychydig o reolwyr canol yn llwyr hyderus wrth ddadansoddi data'n feirniadol er mwyn bwydo strategaethau ar gyfer gwelliant.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff. Yn y rhan fwyaf o achosion, diwellir anghenion hyfforddiant unigol trwy ddiwrnodau hyfforddiant ysgol-gyfan, rhannu arfer da o fewn yr ysgol ac ymweliadau ag ysgolion eraill yn y teulu.

Mae'r llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac yn datblygu dealltwriaeth fwy cadarn am sut gaiff data eu dadansoddi. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol mewn nifer o bwyllgorau. Er nad yw llywodraethwyr wedi eu haseinio i adrannau, maent yn arfarnu adroddiadau adolygiadau adrannol yn feirniadol. Mae'r llywodraethwyr yn diwallu'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda trwy weithredu llawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Gwnaed cynnydd da gyda'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, mentrau lles, codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a'r rhaglen cefnogi llythrennedd. Mae ymateb yr ysgol i ddatblygiad dwyieithrwydd yn ddigonol. Mae cynlluniau wedi eu datblygu'n dda ar gyfer achredu'r medrau allweddol, cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac ymestyn y rhaglen bontio gyda'r ysgolion partner cynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Bu gwelliant arwyddocaol yn ansawdd yr hunan arfarnu a chynllunio datblygol ers yr arolygiad diwethaf. Cafodd hyn effaith sylweddol ar y safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn darparu dadansoddiad manwl o gryfderau, materion allweddol ar gyfer datblygiad a chrynodeb byr o gynlluniau gweithredu. Mae'r adroddiadau hunan arfarnu ysgol ac adrannol yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â'r holl ddangosyddion ansawdd yn y tri chwestiwn allweddol yn y Fframwaith Arolygu newydd. Mae llawer o adroddiadau adrannol yn dadansoddi data'n feirniadol, yn dynodi strategaethau ar gyfer gwelliant ac yn cysylltu eu canfyddiadau i'w cynlluniau ar gyfer gwelliant. Mewn ychydig o adroddiadau adrannol, nid oes digon o fanylder wrth arfarnu cryfderau a gwendidau.

Ceir llawer o nodweddion da yn y broses hunan arfarnu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, gosod targedau a'r adolygiadau adrannol cynhwysfawr. Maent wedi bod yn llwyddiannus wrth ddynodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant trwy ddadansoddiad gofalus o dystiolaeth uniongyrchol sydd yn cynnwys perfformiad y disgyblion, arsylwi gwersi, archwilio llyfrau ac ymatebion disgyblion. Cesglir tystiolaeth bellach trwy drywydd disgyblion, archwiliadau thematig a monitro llyfrau gan yr uwch dîm rheoli ac o fewn adrannau. Gwnaed cryn gynnydd wrth ddatblygu ansawdd y prosesau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae diffyg cyfarfod ffurfiol rheolaidd rhwng y rheolwyr llinell a phenaethiaid adrannau yn lleihau effeithiolrwydd cyffredinol y broses hunan arfarnu.

Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau disgyblion, rhieni a'r cyngor ysgol yn rheolaidd. Mewn llawer o achosion, mae'r safbwyntiau hyn wedi arwain at newidiadau i amgylchedd a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau eglur a phriodol sydd yn ffocysu ar godi safonau. Mae'r pum prif flaenoriaeth yn rhoi ffocws eglur ar gyfer gwelliant i'r ysgol a'r adrannau. Mae targedau penodol, strategaethau ar gyfer gweithredu, staff â chyfrifoldeb am fonitro cynnydd, meini prawf llwyddiant, yr adnoddau angenrheidiol a therfynau amser ar gyfer yr holl gynlluniau. Mae gan lawer o'r cynlluniau datblygu adrannol gyswllt cryf gyda blaenoriaethau'r ysgol a deilliannau hunan arfarnu. Fodd bynnag, mewn ychydig o adrannau, mae diffyg eglurdeb yn y targedau a osodir, yn y dynodi o feini prawf llwyddiant a strategaethau sydd yn ffocysu ar gyfer codi deilliannau ymhellach.

Mae gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer dynodi anghenion proffesiynol parhaus yr holl staff. Caiff anghenion hyfforddiant eu rheoli'n effeithiol trwy ddiwrnodau datblygu ysgol-gyfan, ymweliadau ag ysgolion a chyrsiau allanol yn gysylltiedig â gofynion

arholiadau.  Mae ymglymiad mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn datblygu trwy rannu arfer rhagorol mewn addysgu o fewn yr ysgol a chydweithio gydag ysgolion eraill.  Mae cyfleoedd i athrawon i arsylwi cymheiriaid o fewn adrannau a thu allan i'w pwnc arbenigol yn datblygu'n dda.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a ddynodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol wedi ffurfio partneriaethau da gyda darparwyr lleol eraill er mwyn ymestyn ei dewisiadau cwricwlaidd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.  Mae cyswllt, ymddiriedaeth a chyfathrebu cydrhwng y partneriaid yn dda.  Mae'r monitro a'r arfarnu o brofiadau ei disgyblion ar gyrsiau caiff eu darparu gan ddarparwyr partner yn dda.

Mae gwaith gyda'r ysgolion cynradd partner fel rhan o'r cynllun pontio a threfniadau cymedroli, wedi cryfhau'r dilyniant yn nysgu a lles y disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa oddi wrth gysylltiadau cryf gydag amrediad o asiantaethau amlddisgyblaethol sydd yn helpu diwallu eu hanghenion dysgu, ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Ceir cysylltiadau da gyda'r rhieni ac mae'r Gymdeithas Rhieni Athrawon yn codi arian sylweddol i gefnogi'r ysgol.  Mae hefyd cysylltiadau da gyda sefydliadau a busnesau lleol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Caiff adnoddau staff eu rheoli'n dda er lles y disgyblion ac i gyflwyno blaenoriaethau.  Caiff y cwricwlwm ei gyflwyno'n bennaf gan arbenigwyr pwnc.  Lle mae angen i athrawon addysgu y tu allan i'w maes arbenigol, darperir hyfforddiant a chefnogaeth briodol.  Mae'r ysgol yn diwallu'r gofynion o ran y cytundeb baich gwaith ac yn dyrannu unrhyw ychwaneg tuag at gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae medrau a phrofiad aelodau o'r staff cefnogi yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r ysgol ac yn enwedig i'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r dyrannu o adnoddau yn cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ac yn gyffredinol, mae'r adnoddau ar gyfer dysgu yn dda.  Caiff cyllid y pen ei ddyrannu mewn dull agored a theg.  Mae'r uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethu yn monitro a rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r rheolaeth o'r ganolfan adnoddau corfforol yn dda.  Ymgymerir â chynnal a chadw yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.  Caiff trafnidiaeth ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allanol ei rheoli'n dda a gwnaed newidiadau cwricwlaidd er mwyn lleihau effaith amserau teithio.

Ymgymerir â gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithiol yn unol â pholisïau’r Awdurdod Unedol.  Mae asesiadau risg yn drylwyr a phriodol.

Mae darpariaeth cwricwlaidd cyfrannol yng nghyfnod allweddol 4 yn ehangu'r dewis, yn diwallu anghenion y disgyblion ac yn gwella effeithlonrwydd y ddarpariaeth.

Mae deilliannau'r ysgol yn dda yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae'r gwerth am arian yn ddigonol oherwydd safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 120 o ymatebion i holiadur y rhieni. Rhoddodd lawer ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn.

Mae bron yr holl rieni yn fodlon â'r ysgol. Credant fod gan aelodau'r staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion a bod eu plant yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol newydd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn cytuno fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Mae gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu ac mae cymorth priodol ar gael yn hawdd. Mae'r ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed a chyfrifol. Dywed y rhieni fod Glan Afan yn ysgol ddiogel, gydag addysgu o ansawdd dda ac yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer o'r rhieni'n gadarnhaol am dderbyn gwybodaeth ar gynnydd eu plant ac mae'n hawdd mynd at yr ysgol. Caiff eu plant eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu i'r coleg.

Mae llawer o rieni yn haeru fod y plant yn cael eu hannog i fod yn iachus ac yn ymarfer yn rheolaidd.

Mae lleiafrif bychan o rieni yn mynegi pryder ynglŷn ag ymddygiad disgyblion ac am yr ystod gyfyngedig o weithgareddau gan gynnwys tripiau neu ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniodd estyn 122 o ymatebion gan y disgyblion. Mae'r holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn gwneud yn dda ac maent bron i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf ddigon o adnoddau ac mae'r athrawon yn cefnogi'r disgyblion i ddysgu, gwneud cynnydd a gweithio'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi y cânt gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach neu waith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Dywed y rhan fwyaf o rieni fod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlian a bod rhywun ar gael ar bob adeg i ddelio gyda phroblemau. Mae'r ysgol hefyd yn eu helpu i ddeall a pharchu eraill yn dda.

Creda'r rhan fwyaf o ddisgyblion fod digon o gyfleoedd i ymgymryd ag ymarfer rheolaidd ac mae llawer yn gwerthfawrogi sut mae'r ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach.

Dywed llawer o ddisgyblion y cânt eu trin yn deg a gyda pharch gan aelodau o'r staff sydd yn rhoi gwaith cartref perthnasol.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn mynegi pryder am ymddygiad yn y dosbarth. Hefyd, nid yw hanner y disgyblion yn y cyfnod allweddol hwn yn teimlo fod yr ysgol yn gwrando digon ar safbwyntiau'r disgyblion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Gwyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Davies | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Michael Fahy | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Owen | Enwebai’r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |